Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
## Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Banw**
**Stryd Fawr**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 2NS**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Banw wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ionawr 2016.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn tynnu'r ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi mabwysiadu cynllun gwaith yr awdurdod lleol ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Mae hyn yn sicrhau dilyniant priodol a pharhad medrau o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith erbyn hyn, ac adlewyrchir hyn yn safonau gwaith disgyblion.

Adeg yr arolygiad, roedd safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yn dda. Roedd y safon hon yn cael ei hadlewyrchu ym medrau llafar a medrau darllen disgyblion, ynghyd â gwaith ysgrifenedig yn eu llyfrau. Mae'r safonau hyn wedi'u cynnal ers yr arolygiad.

Er Medi, addysgir mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ethos yr ystafelloedd dosbarth a safonau medrau llefaredd rhan fwyaf y disgyblion. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'u medrau Cymraeg drwy gemau ar yr iard chwarae mewn cydweithrediad buddiol â Menter Iaith Bro Dinefwr. O ganlyniad, mae eu medrau llefaredd Cymraeg mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol yn datblygu'n dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda wrth ddarllen yn Gymraeg, ac maent yn darllen gyda mwy a mwy o gywirdeb ac ystyr. Gallant drafod eu hoff awduron a llyfrau yn dda, a gallant roi rhesymau cadarn, dilys am eu dewisiadau. Mae mwy o wybodaeth am awduron a diwylliant Cymru gan lawer ohonynt, ac mae'r rhan fwyaf yn gallu defnyddio medrau darllen lefel uwch wrth adalw gwybodaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu, ac maent yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn datblygu'u syniadau gyda dychymyg ac yn mynegi teimladau yn glir. Un enghraifft dda yw eu gwaith ar ddisgrifio cymeriad o lyfr darllen eu dosbarth. Maent yn defnyddio geirfa bwrpasol, wedi'i dewis yn ofalus i ddisgrifio'r cymeriad, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai mwy abl yn defnyddio cyffelybiaethau, cyflythreniad ac idiomau yn effeithiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dal i ddibynnu gormod ar fframiau ysgrifennu ac nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith wedi gwella. Mae'r ysgol wedi ymgorffori strategaethau fel 'Drilio iaith' a 'Patrwm iaith' yn wythnosol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar Gymraeg llafar rhan fwyaf y disgyblion, ynghyd â'u hyder. Mae bron pob un o'r athrawon yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn siaradwyr Cymraeg, ac maent yn fodelau rôl iaith da i'r disgyblion. Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda, ac mae'r disgyblion hyn yn magu hyder wrth ynganu ac yn dysgu ystod ehangach o eirfa. Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol, ac erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'r testunau y maent yn eu darllen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ymadroddion a phatrymau syml yn eu hysgrifennu, ac maent yn llai dibynnol ar fframiau ysgrifennu i gefnogi eu medrau.

**Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod eang o strategaethau effeithiol i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ymhlith disgyblion a rhieni, er enghraifft, drwy'r 'prosiect presenoldeb campus' ['awesome attendance project'] a choed presenoldeb. Maent yn atgyfnerthu'r neges hon i rieni drwy gylchlythyrau presenoldeb rheolaidd i rieni, nosweithiau cwricwlwm a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant presenoldeb buddiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwneud yn weithgar â monitro presenoldeb disgyblion yn eu dosbarth.

Mae arweinwyr wedi datblygu system olrhain presenoldeb effeithiol iawn. Mae'r system hon yn eu galluogi i nodi tueddiadau mewn presenoldeb disgyblion ac unrhyw faterion posibl yn gynnar. Er enghraifft, mae dadansoddi absenoldeb disgyblion wedi galluogi'r tîm arweinyddiaeth i nodi wythnosau a diwrnodau 'risg uchel' penodol yn ystod y flwyddyn ysgol. O ganlyniad, maent wedi trefnu gweithgareddau difyr ac ysgogol ar gyfer yr adegau hyn er mwyn annog presenoldeb disgyblion mwy. O ganlyniad, roedd presenoldeb yn ystod yr wythnosau hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda swyddog lles yr awdurdod lleol i fonitro patrymau absenoldeb. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth hon er mwyn monitro a chefnogi disgyblion y mae eu habsenoldeb yn peri pryder.

Er bod y gweithdrefnau a'r strategaethau sydd newydd eu sefydlu wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o agweddau ar bresenoldeb, er enghraifft presenoldeb bechgyn, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith lawn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn y 25% gwaelod o hyd o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd, Cymraeg ac addysg grefyddol yn cael ei chynllunio'n gyson**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi adolygu ei gweithdrefnau cynllunio yn drylwyr gyda chymorth gan swyddogion gwella ysgolion allanol perthnasol. Maent wedi rhoi newidiadau ar waith yn llwyddiannus. Erbyn hyn, ceir trefniadau effeithiol ar gyfer darparu rhifedd, Cymraeg ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer y gwaith hwn yn

rheolaidd ac yn rhoi'r cynllunio hwn ar waith yn gyson. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn eang a chytbwys erbyn hyn, ac yn sicrhau ymdrin yn llawn â'r fframwaith rhifedd, Cymraeg ac addysg grefyddol. Mae'r cynllunio hwn yn cynnig profiadau dysgu priodol i oedran sy'n ystyried ystod lawn anghenion disgyblion. Mae hefyd yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion trwy ddefnyddio gwybodaeth o asesu a marcio gwaith disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr yn monitro'n rheolaidd bod y cynllunio yn cael ei adlewyrchu yn llyfrau disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl athrawon yn cynllunio'u gwersi wythnosol yn dda a'u bod yn cadw at y cylch cynllunio.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o gymysgedd yr ysgol o gynlluniau sy'n seiliedig ar thema a chynlluniau pwnc unigol yn sail i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r cydlynydd rhifedd yn sicrhau bod pob athro yn gwybod beth yw cynnwys y fframwaith rhifedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn trwy gynhyrchu dogfen wybodaeth ddefnyddiol.

**Argymhelliad 4: Sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon o waith disgyblion, yn enwedig mewn Cymraeg**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi cymryd camau effeithiol i sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon o waith disgyblion a chysondeb wrth ddefnyddio prosesau asesu. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio asesiadau athrawon a chanlyniadau profion safonedig i asesu cyflawniad disgyblion ac i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus. Defnyddir y wybodaeth gan athrawon i nodi grwpiau penodol o ddisgyblion yn effeithiol ac i ddarparu rhaglenni ymyrraeth ar eu cyfer, gan gynnwys disgyblion sydd â'r potensial i gyrraedd y lefelau uwch. Maent yn defnyddio'u system olrhain electronig eu hunain i olrhain eu cynnydd yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n rheolaidd ar graffu ar waith disgyblion. Maent yn canolbwyntio ar gysondeb ac effaith adborth ysgrifenedig, ac yn sicrhau bod cyswllt rhwng targedau disgyblion â system olrhain yr ysgol er mwyn llywio'r cynllunio. Mae athrawon yn cymedroli asesiadau yn fewnol bob mis, ac yn cyfranogi mewn gweithgareddau safoni ar lefel clwstwr lleol. O ganlyniad, mae athrawon yn fwy hyderus wrth bennu'r lefel neu'r deilliant sy'n cyfateb i waith disgyblion. Erbyn hyn, mae gan athrawon ddealltwriaeth sicr o ddisgrifwyr lefel ac asesu deilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae asesiadau yn adlewyrchu safonau disgyblion yn llwyddiannus, ac mae asesiadau athrawon mewn Cymraeg yn adlewyrchu'r gwaith yn llyfrau disgyblion yn gywir erbyn hyn.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod y corff llywodraethol yn dilyn arfer orau o ran recriwtio staff i swyddi arweinyddiaeth, datblygu eu rôl wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol a herio arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarnach**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, bu cryn newid i aelodaeth y corff llywodraethol, gan gynnwys cadeirydd ac is-gadeirydd newydd. Wrth benodi llywodraethwyr newydd, maent wedi

ystyried yn ofalus y medrau priodol sydd eu hangen i fodloni anghenion yr ysgol. O dan arweinyddiaeth fedrus y cadeirydd, mae'r corff llywodraethol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol gan y llywodraethwyr, ac mae eu rôl yn y broses wella yn datblygu'n dda.

Mae bron pob un o'r llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant buddiol, gan gynnwys hyfforddiant statudol i lywodraethwyr newydd. Mae hyn wedi'u galluogi i ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol. Cânt adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth ac uwch arweinwyr ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Trwy ymweliadau rheolaidd â'r ysgol, craffu ar lyfrau, teithiau dysgu a chyfranogi yng nghyfarfodydd y panel gwelliant, maent yn datblygu'u gallu i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei darpariaeth a'i safonau yn effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol wedi diwygio ei bolisi recriwtio'n llwyddiannus ar gyfer pob penodiad, gan gynnwys recriwtio staff i swyddi arweinyddiaeth. Mae cadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth gweithredol wedi mynychu hyfforddiant recriwtio mwy diogel. Maent wedi gweithio'n agos gydag adran adnoddau dynol yr awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn dilyn arfer orau wrth benodi aelodau staff newydd.

**Argymhelliad 6: Datblygu rolau monitro arweinwyr fel eu bod yn gallu arfarnu eu meysydd cyfrifoldeb yn gywir er mwyn bwydo eu canfyddiadau i hunanarfarniad cywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth gweithredol wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau arweinwyr. Mae wedi diwygio disgrifiadau swydd a chyfrifoldebau i sicrhau eu bod yn glir ac yn darparu dealltwriaeth effeithiol o'u rolau a'u cyfrifoldebau i arweinwyr. Erbyn hyn, ceir ethos agored ac onest yn yr ysgol, gyda ffocws clir ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer pob disgybl.

Mae pob arweinydd wedi derbyn hyfforddiant buddiol sydd wedi'u galluogi i ddatblygu eu rolau monitro ac arfarnu yn llwyddiannus. Mae amserlen gynhwysfawr gan arweinwyr ar gyfer hunanarfarnu, yn seiliedig ar ddadansoddiad sicr o ystod eang o ddata, craffu ar lyfrau, arsylwadau o wersi a gwrando ar ddysgwyr. Defnyddiant y wybodaeth yn dda i arfarnu cynnydd argymhellion ac i nodi blaenoriaethau pellach ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â staff i drafod cynnydd disgyblion yn eu dosbarth. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn atebol am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Yn gyffredinol, mae adroddiadau monitro yn arfarnol ac yn adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn briodol. Mae arweinwyr wedi dechrau datblygu'r broses hon yn llwyddiannus er mwyn cael ffocws cliriach ar feysydd datblygu penodol. Er enghraifft, trwy fonitro rhifedd ar draws y cwricwlwm, maent wedi sicrhau bod yr holl weithgareddau yn rhai cynyddol ac yn darparu lefel briodol o her i ddisgyblion o bob gallu.

Ceir ffocws clir rhwng cyfarfodydd yr uwch dîm arweinyddiaeth a chyfarfodydd staff. Mae'r pennaeth gweithredol wedi sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar bob campws. Drwy wneud hyn, mae wedi helpu creu ethos ysgol gyfan lle caiff cyfraniad

pob aelod o staff ei werthfawrogi. Mae pob cyfarfod yn cynnwys ffocws clir ar wella safonau a darpariaeth, yn ogystal â rhannu canlyniadau gweithgareddau monitro. Mae hyn wedi sicrhau bod dealltwriaeth gadarn gan bob un o'r staff o'r hyn a ddisgwylir ganddynt, ac mae wedi galluogi'r ysgol i wneud cynnydd da tuag at argymhellion yr arolygiad craidd.

Erbyn hyn, mae ffocws clir rhwng gweithgareddau monitro a'r adroddiad hunanarfarnu. Mae arweinwyr yn adolygu ac yn addasu'r adroddiad hunanarfarnu yn rheolaidd yn dilyn gweithgareddau monitro. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu'n rhoi adlewyrchiad cywir o gryfderau'r ysgol a blaenoriaethau gwella, ac mae cysylltiadau clir rhyngddo â chynllun datblygu'r ysgol.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod defnydd priodol ac effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr wedi adolygu'r defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn llwyddiannus gan ddefnyddio ymchwil o amrywiaeth o ffynonellau arfer orau. Maent wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i ddarparu ystod eang o strategaethau buddiol i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles grwpiau o ddisgyblion agored i niwed.

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau effeithiol i gasglu gwybodaeth am bresenoldeb, agweddau at ddysgu, ymgysylltiad rhieni a diddordebau penodol disgyblion sy'n agored i niwed. Maent yn dadansoddi'r wybodaeth hon ac yn gwneud defnydd gwerthfawr ohoni i nodi strategaethau i wella deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithredu ymyriadau rhifedd sy'n targedu grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd disgyblion sy'n derbyn y rhaglenni ymyrraeth hyn. Hefyd, mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r grant i ddarparu profiadau cyfoethogi i ddisgyblion. Un enghraifft arloesol o hyn yw datblygu rhaglen 'Dyfodol Disglair / Bright Futures' sy'n datblygu hyder a dyheadau disgyblion, yn ogystal â gwella eu medrau llythrennedd.

Mae'r ysgol wedi penodi aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth a llywodraethwr cyswllt sydd â chyfrifoldeb am wneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Trwy ddefnyddio system olrhain gynhwysfawr a chadarn, maent yn arfarnu effaith y grant ar ddeilliannau a lles disgyblion sy'n agored i niwed yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.